# Protocol – Rhanddirymiadau ar gyfer Marchnata Dros Dro Hadau o Safon Egino Is

## Egwyddorion

- Pwrpas y protocol yw sicrhau mai'r unig adeg y gellir rhoi rhanddirymiad ar gyfer marchnata dros dro hadau o safon egino is na'r hyn sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Marchnata Hadau perthnasol, yw pan fo'r hadau dan sylw yn brin ledled Prydain, ac nid oes modd lleihau'r prinder cyflenwad o fewn y DU.
- Rhaid i Awdurdodau Prydain gytuno ar randdirymiad drwy Bwyllgor (y Pwyllgor Rhywogaethau Planhigion a Hadau – PVSC).
- Mae'r Protocol hwn yn gymwys i Brydain yn unig a bydd angen mewnbwn gan gynrychiolwyr Pwyllgor Rhywogaethau Planhigion a Hadau (PVSC) a Phwyllgor Rhestrau a Hadau Cenedlaethol (NLSC) Prydain. Mae DAERA yn ddarostyngedig i Reolau'r UE ar gyfer rhoi rhanddirymiadau ar gyfer marchnata dros dro hadau o safon egino is os bydd anawsterau â chyflenwad hadau.
- Bydd cynrychiolwyr y PVSC a'r NLSC yng Ngogledd Iwerddon yn cael copi o'r ohebiaeth drwy gydol y broses a gallant wneud sylwadau neu roi cyngor.
- Mae'r Protocol hwn yn darparu fframwaith i weithredu gofynion Rheoliad Comisiwn yr UE a Ddargedwir 217/2006 (fel y'i diwygiwyd gan OS 2019/162 a ddiwygiwyd cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan OS 2020/1388).

## Protocol

<u>Rhan I – Gwneud Cais am Randdirymiad</u>

1.1. Mae sefydliad sy'n cynrychioli'r diwydiant (e.e., Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol (AIC)) yn darparu cais i bob awdurdod cyfrifol ym Mhrydain (aelodau'r PVSC), gan roi copi i gynrychiolydd y PVSC yng Ngogledd Iwerddon i ystyried cais am randdirymiad ar ran cwmni/cwmnïau hadau ym Mhrydain. Rhaid i'r cais gan y diwydiant gynnwys cyfiawnhad digonol a thystiolaeth ategol, ynghyd â manylion y rhywogaeth, tunelledd, hyd yr awdurdodiad a'r mathau perthnasol o amrywogaethau (gweler Atodiad 1).

1.2. Mae'r PVSC yn gofyn i'r NLSC roi gwybod i'r awdurdodau ardystio[1]. Mae gan y PVSC 15 diwrnod gwaith i ystyried y cais ac ymateb[2]. Gofynnir i'r PVSC ymateb â phryderon brys uniongyrchol o fewn llinell amser fyrrach, er enghraifft gwrthod y cais. Os na chodir pryder difrifol, yna gellir anfon Llythyrau Gwybodaeth Ardystio Hadau yn ystod y 15 diwrnod gwaith (gweler Rhan II) i osgoi oedi diangen.

---

[1] Mae'r "awdurdodau ardystio" yn golygu APHA ar gyfer Cymru a Lloegr a Llywodraeth yr Alban ar gyfer yr Alban.
[2] Gofynion a sefydlwyd yn Rheoliad y Comisiwn 217/2006 a ddargedwir mewn cyfraith ddomestig

1.3. Mae'r PVSC yn asesu'r cyfiawnhad a thystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r cais am randdirymiad, gan ofyn am gyngor gan yr NLSC yn ôl y galw fel sail i'r penderfyniad, ac yn ystyried a ellir cael cyflenwadau amgen o hadau addas o amrywogaethau y gofynnwyd amdanynt neu rai tebyg o rywle arall yn y DU.

1.4. Os nad oes digon o gyfiawnhad dros randdirymiad, bydd Ysgrifenyddiaeth Rhanddirymiadau'r PVSC yn hysbysu'r sefydliad sy'n cynrychioli'r diwydiant a wnaeth y cais bod y cais am randdirymiad wedi cael ei wrthod.

1.5. Os oes cyfiawnhad digonol:

1.5.1. ac os oes cyflenwadau amgen o hadau yn rhywle arall yn y DU, gwrthodir y cais am randdirymiad, neu caiff y symiau eu lleihau; neu,

1.5.2. os nad oes cyflenwadau amgen o hadau yn rhywle arall yn y DU, caniateir y cais am randdirymiad.

1.6. Ar ôl caniatáu'r cais, bydd ysgrifenyddiaeth y PVSC yn rhoi nodyn i'r awdurdodau ardystio yn cadarnhau cytundeb y PVSC i awdurdodi rhanddirymiad.

Rhan II – Awdurdodi'r Rhanddirymiad

2.1. Mae APHA yn anfon fersiynau Cymraeg a Saesneg o lythyr Gwybodaeth Ardystio Hadau i randdeiliaid yng Nghymru a Lloegr, ac mae Llywodraeth yr Alban yn anfon llythyr Gwybodaeth Ardystio Hadau i randdeiliaid yn yr Alban gan roi manylion am y rhanddirymiad a gwahodd ceisiadau i gynrychiolydd diwydiant enwebedig cyn dyddiad ac amser penodedig. *Yn cael ei drin gan Gydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol (AIC) ar sail Prydain (gan gynnwys rhai nad ydynt yn aelodau o'r Cydffederasiwn).*

Os yw rhanddirymiad ar gyfer amrywogaeth benodedig ag elfen o gynnal neu reoli, yr unig gwmnïau hadau y cysylltir â hwy fydd y rhai y gwyddys bod ganddynt ddiddordeb (h.y., amrywogaethau had llin). Ni chaiff llythyr Ardystio Hadau cyffredinol ei anfon mewn amgylchiadau o'r fath.

2.2. Cynhelir yr ymarfer dyrannu gan AIC. Os bydd cyfanswm tunelledd ceisiadau yn fwy na chyfanswm y rhanddirymiad a gymeradwywyd, caiff dyraniadau eu lleihau ar sail pro rata. Anfonir y dyraniad wedi'i gwblhau at Defra i'w wirio. Ar ôl dyrannu'r cwota, bydd Defra yn hysbysu'r PVSC a'r NLSC ynglŷn â chanlyniad y dyraniad.

2.3. Caiff y cais am Randdirymiad ar gyfer Prydain, fel y'i derbyniwyd gan y PVSC, ei awdurdodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Lloegr, Gweinidogion yr Alban ar gyfer yr Alban, Gweinidogion Cymru ar gyfer Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol â chydsyniad Gweinidogion Cymru.

2.4. Ar ôl dyrannu'r cwota, bydd Defra (ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol) a Llywodraeth Cymru (ar ran Gweinidogion Cymru) yn anfon fersiynau Cymraeg a Saesneg (lle bo'n briodol) o Lythyr Awdurdodi (Atodiad 2) a bydd Llywodraeth yr Alban (ar ran Gweinidogion yr Alban) yn cyhoeddi Trwydded

Gyffredinol (Atodiad 3) i ganiatáu marchnata dros dro yr hadau â'r tunelledd a gymeradwywyd[3] yn y tiriogaethau perthnasol. Caiff cwmnïau hadau eu hysbysu ynglŷn â'r dyraniadau drwy Atodlen y Llythyr Awdurdodi a/neu atodlen y Drwydded Gyffredinol a fydd yn cynnwys enwau cofrestredig a chyfeiriadau cwmnïau ac uchafswm y tunelledd. Bydd AIC yn rhoi copïau o'r awdurdodiad a/neu'r Drwydded Gyffredinol i bob cwmni â dyraniad dan y rhanddirymiad.

2.5. Caiff yr awdurdodau ardystio eu hysbysu ynglŷn â chanlyniad yr ymarfer dyrannu a rhoddir iddynt gopi o'r Llythyr Awdurdodi a /neu Drwydded Gyffredinol er mwyn iddynt allu hysbysu eu harolygiaeth a/neu bartïon contractio.

Rhan III – Monitro ac Ailddyrannu Tunelledd a Randdirymwyd

3.1. Bydd yr awdurdodau ardystio, fel rhan o'u rhaglen orfodi, yn edrych ymhellach ar farchnata dan y rhanddirymiad er mwyn sicrhau cydymffurfiad ag amodau'r Llythyr Awdurdodi/Trwydded Gyffredinol.

3.2. Ailddyrannu tunelledd.

3.2.1. Os bydd ar gwmni nad yw wedi'i awdurdodi i farchnata hadau dan y rhanddirymiad angen dyraniad, neu os bydd ar gwmni angen lwfans tunelledd mwy, gall AIC gysylltu â chwmnïau sydd wedi'u hawdurdodi dan y rhanddirymiad i ofyn a fyddent yn fodlon lleihau eu lwfans tunelledd yn wirfoddol os nad yw'n cael ei ddefnyddio.

3.2.2. Os bydd cwmni yn cytuno i leihau ei lwfans tunelledd yn wirfoddol, bydd AIC yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan y cwmni, a fydd yn cynnwys:

- i) Enw a chyfeiriad y cwmni
- ii) Y tunelledd gwreiddiol a ddyrannwyd
- iii) Tunelledd sydd wedi'i farchnata dan y rhanddirymiad hyd yn hyn
- iv) Tunelledd y cytunwyd i'w ailddyrannu

Os na fydd unrhyw gwmni hadau yn cytuno'n wirfoddol i leihau ei lwfans wedi'i randdirymu, gellir gwneud cais am randdirymiad newydd.

3.2.3. Bydd AIC yn darparu manylion llawn y cwmni i'w hychwanegu at yr awdurdodiad.

3.2.4. Bydd Defra (ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru) neu Defra (ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol) a Llywodraeth Cymru (ar

[3] Dan y ddeddfwriaeth berthnasol h.y. Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012, Rheoliadau Marchnata Hadau 2011, Rheoliadau Hadau Betys (Yr Alban) (Rhif 2) 2010, Rheoliadau Hadau Ŷd (Yr Alban) 2005, Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Yr Alban) 2005, Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffeibr (Yr Alban) 2004, neu Reoliadau Hadau Llysiau 1993.

ran Gweinidogion Cymru), a Llywodraeth yr Alban (ar ran Gweinidogion yr Alban) yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg (lle bo'n briodol) o Hysbysiad Ailddyrannu, gan ddiwygio Atodlen y Llythyr Awdurdodi/Trwydded Gyffredinol. Bydd AIC yn dosbarthu'r hysbysiad i bob cwmni sydd wedi'i awdurdodi i farchnata dan y rhanddirymiad.

3.2.5. Caiff yr awdurdodau ardystio eu hysbysu ynglŷn â'r ymarfer ailddyrannu ac anfonir copi atynt o'r Llythyr Awdurdodi a'r Drwydded Gyffredinol ddiwygiedig er mwyn iddynt allu hysbysu eu harolygiaeth a/neu bartïon contractio.

3.3. Pan fydd y cyfnod o amser ar gyfer Awdurdodiad/Trwydded Gyffredinol wedi dod i ben, bydd yr awdurdodau ardystio yn darparu adroddiad i'r PVSC yn rhoi manylion am gyfanswm y tunelledd a awdurdodwyd sydd wedi'i farchnata dan y rhanddirymiad, ac adroddiad ar archwilio marchnata hadau dan y rhanddirymiad.

Atodiad 1 – Templed Cais am Randdirymiad gan ddiwydiant

| |
|---|
| **Dyddiad** |
| **Y Sefydliad sy'n Gwneud Cais** |
| **Enw'r awdurdod cyfrifol y gwneir y cais iddo** (Dylech nodi Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yma). Wrth gyflwyno'r cais dylid sicrhau bod DAERA yn cael copi. |
| **Rhywogaeth** |
| **Categori o hadau** |
| **Math(au) o Amrywogaeth** |
| **Tunelledd y gofynnir amdano** |
| **Lleiafswm Capasiti Egino** |

| |
|---|
| |
| **Rhanbarth tyfu** |
| **Cyfnod Defnyddio** |
| **Cyfiawnhad i gefnogi'r cais, gan gynnwys:**<br>• **Rheswm dros y cais (rhowch gymaint o fanylion ag sy'n bosibl)**<br>• **Cadarnhad, o ran yr angen am randdirymiad, bod y sefydliad sy'n gwneud cais wedi ymgynghori ag aelodau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban**<br>• **A geisiwyd cael cyflenwadau amgen o hadau o rywle arall yn y DU (h.y. gan gynnwys Gogledd Iwerddon)**<br>• **A ystyriwyd unrhyw fathau tebyg o hadau sydd ar Restr Amrywogaethau Prydain**<br><br>**(Rhowch unrhyw dystiolaeth ategol ynghlwm)** |

Atodiad 2 – Pro Forma Llythyr Awdurdodi

Annwyl ymgeisydd

Rheoliad Comisiwn yr UE a Ddargedwir 217/2006 **– AWDURDODIAD DROS DRO I FARCHNATA HADAU {rhywogaeth} SY'N IS NA'R SAFON EGINO STATUDOL SYLFAENOL**

Yn dilyn cais gan {*y sefydliad yn cynrychioli'r diwydiant sy'n gwneud cais* dyddiedig XXX} mae [yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion Cymru/Yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru] yn awdurdodi rhanddirymiad dros dro i ganiatáu marchnata, yng Nghymru a Lloegr, hadau cyfanswm o {X tunnell} o {rhywogaeth}, o fathau o amrywogaethau {rhowch y mathau o amrywogaethau} nad ydynt yn cyrraedd y safon egino ar gyfer y cyfryw hadau a bennwyd yn {cyfeirnod y ddeddfwriaeth} ond sydd fel arall yn bodloni'r holl ofynion marchnata.

Mae'r awdurdodiad dros dro hwn yn amodol ar y canlynol:

1. Mae'r awdurdodiad yn ddilys o {dyddiad cychwyn} tan {dyddiad gorffen}.
2. Ni ddylid marchnata hadau sydd wedi'u rhanddirymu nes bydd y prawf egino swyddogol wedi'i gwblhau gan yr Orsaf Brofi Hadau Drwyddedig.
3. Y ganran egino leiaf fydd {#}%.
4. Ni chaniateir rhoi hadau o'r categorïau cyn-sylfaenol/sylfaenol ar y farchnad o dan yr awdurdodiad hwn.
5. Rhaid i'r label swyddogol ar gyfer hadau sy'n cael eu marchnata dan yr awdurdodiad hwn nodi safon egino leiaf yr hadau: "Derogated seed – min germ {#}%".
6. Dylai'r nodyn danfon ar gyfer hadau a gaiff eu marchnata dan yr awdurdodiad hwn gynnwys cyfeiriad at {deddfwriaeth}. Dylai hefyd gynnwys datganiad bod yr hadau o gategori sy'n bodloni gofynion llai caeth na'r rhai a osodwyd yn {deddfwriaeth} a nodi'r safon egino a bennwyd gan yr adroddiad profi hadau swyddogol.
7. Ni chaniateir i unrhyw un ar wahân i'r cwmni a enwir yn yr atodlen ynghlwm roi unrhyw hadau ar y farchnad am y tro cyntaf.
8. Ni chaniateir i unrhyw gwmni sy'n marchnata hadau fynd dros ei ddyraniad dan yr awdurdodiad hwn fel y nodir yn yr atodlen ynghlwm.
9. Ni ddylai uchafswm yr hadau a gaiff eu marchnata dan yr awdurdodiad hwn fod yn fwy na {# tunnell}. Yr unig rai a gaiff awdurdodi dyraniadau neu ailddyraniadau o fewn yr uchafswm hwn yw {Defra ar gyfer Lloegr, neu Gymru a Lloegr â chydsyniad Gweinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru ar gyfer Cymru}.

Rwy’n anfon copi o’r awdurdodiad hwn at {Person Cyswllt yn AIC neu sefydliad arall sy’n cynrychioli’r diwydiant} ac at {person cyswllt yn yr awdurdod ardystio} at ddibenion monitro.

Yn gywir

{Enw}

**ATODLEN 1**

**DYRANNU UCHAFSWM YR HADAU {RHYWOGAETH} A AWDURDODWYD AR GYFER MARCHNATA DAN YR AWDURDODIAD DROS DRO HWN**

| **Cwmni a Awdurdodwyd** | **Uchafswm (tunelli)** |
|---|---|
| {Enw a chyfeiriad y cwmni} | {swm} |

<u>Atodiad 3 – Pro Forma Trwydded Gyffredinol</u>

TRWYDDED GYFFREDINOL [rhif]

DEDDF AMRYWOGAETHAU A HADAU PLANHIGION 1964

RHEOLIADAU [rhywogaeth sy’n cael ei marchnata] [blwyddyn]

Trwydded Gyffredinol yn caniatáu marchnata [Enw cyffredin y rhywogaeth (enw Lladin)] nad yw’n bodloni’r safon egino

1. Mae Gweinidogion yr Alban yn dyroddi’r Drwydded Hon ("Trwydded") dan reoliad [sail gyfreithiol] o Reoliadau [rhywogaeth sy’n cael ei marchnata] [Blwyddyn] ("rheoliadau [blwyddyn]") at ddibenion goresgyn anhawster dros dro yn y cyflenwad o hadau ardystiedig.

**Trwydded Gyffredinol**

2. Mae Llywodraeth yr Alban yn awdurdodi’r cwmni / unigolion a restrir yn yr atodlen isod i farchnata [cyfanswm] o dunelli o [Enw cyffredin y rhywogaeth (enw Lladin)] o fathau o amrywogaethau [rhowch y mathau o amrywogaethau] nad ydynt yn bodloni’r safon egino ar gyfer y cyfryw hadau a bennwyd yn [cyfeirnod deddfwriaeth] ond sydd fel arall yn bodloni’r holl ofynion marchnata. [cyfeirnod deddfwriaeth]. Yn benodol, mae marchnata hadau dan y Drwydded Gyffredinol hon wedi ei eithrio o’r gofyniad i gydymffurfio â’r safon egino, a nodwyd yn [cyfeirnod cyfreithiol], ar gyfer y [Rhywogaeth].

Bydd y Drwydded hon yn dod i rym ar [Dyddiad] ac yn dod i ben ar ddiwedd [Dyddiad], oni bai ei bod yn cael ei dirymu yn gynharach gan Weinidogion yr Alban.

**Amodau’r drwydded**

3. Mae’r Drwydded hon yn amodol ar y canlynol

(a) ni chaniateir rhoi hadau o’r categorïau cyn-sylfaenol neu sylfaenol ar y farchnad o dan y Drwydded hon;

(b) ni chaniateir marchnata unrhyw hadau nes bydd y prawf egino swyddogol wedi ei gwblhau gan [yr Orsaf Brofi Hadau Drwyddedig / yr Orsaf Brofi Hadau Swyddogol].

(c) ni chaniateir i unrhyw gwmni ar wahân i’r un a restrwyd yn yr Atodlen roi hadau ar y farchnad am y tro cyntaf dan y Drwydded hon;

(d) ni chaniateir i unrhyw berson sy’n marchnata hadau dan y Drwydded hon fynd dros y dyraniad a bennwyd yn yr Atodlen;

(e) mae uchafswm yr hadau y gellir eu marchnata dan y Drwydded hon wedi'i nodi yn yr Atodlen. Ni ellir awdurdodi dyraniadau neu ailddyraniadau o fewn yr uchafswm hwn oni bai fod Gweinidogion yr Alban yn cytuno; ac

(f) rhaid i'r label swyddogol ar gyfer hadau sy'n cael eu marchnata dan y Drwydded Gyffredinol hon gynnwys y canlynol: -

(i) y gyfradd egino a ganfuwyd yn yr adroddiad profi hadau swyddogol, a dylai'r pecyn sy'n cynnwys yr hadau fod â label yn unol â [cyfeirnod deddfwriaeth], a

(ii) datganiad bod yr hadau o gategori sy'n bodloni gofynion llai caeth na'r rhai a osodwyd yn [y ddarpariaeth ddeddfwriaethol berthnasol sy'n ymwneud â'r gyfradd egino].

(g) dylid cynnwys yr wybodaeth am y safon egino wirioneddol a'r datganiad yn (f)(ii) yn y nodyn danfon hefyd.

Aelod o staff

Llywodraeth yr Alban

ATODLEN

## DYRANNU UCHAFSWM YR HADAU A AWDURDODWYD AR GYFER

## MARCHNATA DAN Y DRWYDDED HON

| Person a Awdurdodwyd | Uchafswm (tunelli) |
|---|---|
| | |
| | |